

Wythnos Cymorth Cristnogol 2021



'Gyda phob rhodd, gyda phob llais, gyda phob gweddi, rhown **STOP** ar yr argyfwng hinsawdd hwn.'
Cymorth Cristnogol yn annog casglu, ymgyrchu, gweddïo ac addoli yn ystod yr wythnos 10–16 Mai

Casglu

Mae yna dros 80 o bobl ar hyd a lled Cymru yn gwneud yr her 300,000 o gamau yn ystod mis Mai er mwyn codi arian yn eu cylchoedd eu hunain. Yn eu plith mae dwy weinidog o'r gogledd, Anna-Jane Evans o Gaernarfon a Nan Wyn o'r Wyddgrug.

'Yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol eleni (10–16 Mai), fe fyddaf yn ymuno â'r her genedlaethol sydd wedi ei gosod gan Gymorth Cristnogol, sef cerdded 300,000 o gamau yn ystod mis Mai. Ond ... mae dwy ohonom, sef Anna-Jane Evans a minnau, wedi penderfynu cerdded ein camau yn ystod yr wythnos yn hytrach nag yn ystod y mis. Mae cyfle i unrhyw un ein noddi – fe wnaiff eich cyfraniadau wahaniaeth enfawr i'r rhai hynny sy'n brwydro yn erbyn effeithiau newid hinsawdd, yn arbennig yn Kenya ac yn ein byd eleni,' meddai Nan.

Er mwyn nodi pen-blwydd y mudiad yn 75 oed eleni, mae Llinos Roberts o Drefor, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian y mudiad, wedi bod yn cerdded bob dydd gan gofio taith ddyddiol Rose o Kenya wrth iddi wneud hynny.

'Rwyf wedi penderfynu cerdded bob dydd am 75 diwrnod i godi arian i Gymorth Cristnogol. Dechreuais gerdded ar 15 Mawrth ac rwyf am ddal ati tan 28 Mai. Ar gyfartaledd, rwyf yn cyflawni rhwng 20 a 30 milltir yr wythnos ar hyn o bryd. Rwyf wedi dewis cerdded oherwydd bod Rose yn cerdded i nôl dŵr i'r teulu bob dydd ac wedi dewis 75 diwrnod oherwydd bod Cymorth Cristnogol yn nodi 75 mlynedd eleni o fynnu bod urddas, cydraddoleb, cyfiawnder a chariad ar gael i bawb,' meddai Llinos.

Ymgyrchu

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd i gymaint o bobl, mewn cymaint o wahanol ffyrdd. Ond mae caredigrwydd ac undod wedi dangos cymuned ar ei gorau a bod ffordd arall yn bosib – dyfodol glanach a gwyrddach.



'Oherwydd newid hinsawdd, rwy'n poeni llawer am fwyd. Rwy'n gweddïo i Dduw y bydd y glaw yn dod yn normal eto fel yr oedd arfer bod.'

Mae'r argyfwng hinsawdd yn golygu fod pob diferyn yn werthfawr i Rose.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol mae cyfle i annog pobl i arwyddo deiseb i'r Prif Weinidog. Gallwch wneud hyn ar lein ar wefan y mudiad: <https://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns>

Mae'r ddeiseb hefyd yn rhan o lyfryn 'Defosiwn Saith Diwrnod' Wythnos Cymorth Cristnogol, fel cerdyn i'w anfon drwy'r post yn rhad ac am ddim i'r Prif Weinidog. Efallai fod amser eto ichi archebu copïau ar gyfer aelodau eich eglwysi. Hefyd, os bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn medru digwydd mae modd casglu enwau ar daflen.

Bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i'r Prif Weinidog wrth i Lywodraeth Prydain baratoi i lywyddu cynhadledd COP26 ym mis Tachwedd ac yn gofyn am weithredu uchelgeisiol ar y canlynol:

- cynyddu'r gefnogaeth ariannol i wledydd tlotaf y byd a galw am ddileu eu dyledion fel eu bod yn gallu wynebu'r argyfwng hinsawdd a blaenoriaethau brys eraill yn well;
- buddsoddi mewn adferiad gwyrdd na fydd yn gadael neb ar ôl – yn y Deyrnas Unedig nac yng ngwledydd tlawd y byd;
- atal cynnydd yn y defnydd o ynni ffosil a chynyddu ynni glân.

Gweddïo



Plant yn codi eu dwylo mewn addoliad eglwysig ger pentref Kyeng'e, Kenya

Gallwch roi eich enw i fod yn rhan o gadwyn weddi Cymorth Cristnogol yn www.caid.org.uk/prayerchain

Beth am ddefnyddio'r gweddïau hyn yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol a'r darlleniadau, y straeon o Kenya a gweddïau eraill sydd i'w cael yn y llyfryn 'Defosiwn Saith Diwrnod'?

Gweddï am adferiad

Dduw Greawdwr, o'r goeden yng ngardd Eden i'r goeden yn y ddinas yn llyfr y Datguddiad, diolchwn i Ti am dy weledigaeth o'r greadigaeth wedi ei hiacháu. Cynorthwya ni i fod yn gyfryngau

(parhad ar y dudalen nesaf)

Wythnos Cymorth Cristnogol 2021 *(parhad o dudalen 1)*

dy adferiad, yn gofalu am brydferthwch ein daear, ac yn dy alluogi i iacháu'r cenhedloedd. Amen.

Gweddï Wythnos Cymorth Cristnogol

Dduw Mawr,
 Sy'n peri i'r haul godi ac sy'n agor y nefoedd,
 Clyw gri y bobl
 Sy'n hau mewn gobaith am law, ond yn medi dim ond gofid.
 Clyw gri y bobl
 Sy'n ceisio lloches rhag y storm, eu gobeithion a'u cartrefi
 Dan ddyfroedd.
 Clyw gri y bobl,
 Pan mae'r greadigaeth yn taro'n ôl gyda dicter a gwrthwynebiad
 Dyro i ni obaith, cyfranna inni dy iachawdwriaeth,
 Dyro inni berthynas newydd gyda'r greadigaeth
 Gyda pharch i ofalu am y rhodd yma o'th law
 Gan ddweud unwaith eto am y byd a'r cyfan a greaist
 Mai DA ydyw.
 (Bob Kikuyu, Ymgynghorydd ar Ddiwinyddiaeth Fyd-eang,
 Cymorth Cristnogol)

Gweddï o alarnad

(Seiliedig ar Salm 96:11-13)

O Dduw, nid yw'r nef yn falch
 nid yw'r ddaear yn llawenhau
 mae nwyon cynhesu'n llenwi'r awyr
 mae llygredd yn troi'r aer yn ddrewllyd
 mae'r hinsawdd yn datgymalu ac yn creu hafoc.

Mae'r môr yn ochneidio'n alarus
 oherwydd yr holl blastig sy'n ei lenwi
 yr holl ddiustr i'r riffiau cwrel.
 Mae'r caeau'n ochneidio'n alarus
 wrth i'r glaw beidio a'r sychder barhau
 wrth i rywogaethau farw'n ddyddiol.
 Nid oes cân lawen yn atsein
 o'r coed yn y fforest
 a ddinistrir gan danau.

Am ba hyd, O Dduw, am ba hyd
 hyd nes y daw dy gyfiawnder
 i'th holl anifeiliaid
 a'th ddaear.
 Ynot ti ymddiriedwn. Amen.

Gweddï amser paned

Dduw bywyd yn gyfan,
 Wrth ddisgwyl i'r dŵr ferwi
 yr ydym yn cyffesu ac yn galaru
 am y cynnydd mewn tymheredd
 sydd wedi arwain at argyfwng yn yr hinsawdd
 ar hyd a lled y blaned brydferth hon.
 Disgwylwn, yn ddiamynedd am newid.
 Wrth arllwys dŵr poeth
 ar ddail te neu gwodyn,
 i mewn i debot neu hoff fwg,
 fe dywalltwn ein gweddïau o eiriolaeth
 am newid yng nghalonau ein gwleidyddion
 i roi y blaned a'i phobl yn gyntaf.
 Wrth droi y cwodyn te, y dail neu'r siwgr
 Gofynnwn y byddet ti'n cynhyrfu ynom ninnau angerdd i
 weithredu,
 i wneud popeth a allwn ar yr awr dyngedfennol hon

Er mwyn gofalu am y byd
 sy'n gartref cyffredin inni i gyd
 a chwyddo'r llais sy'n galw am gyfiawnder hinsawdd.
 Wrth sipian y diferion cyntaf sy'n ein boddhau
 Rhown ddiolch i ti am y dydd:
 'Ni newynant mwy ac ni sychendant mwy.*'
 Cynysgaedda ni â gweledigaeth gref, wedi'i mwydo'n dda
 O'th greadigaeth wedi ei hiacháu a'i hadfer.
 Amen



Beth am dynnu llun a rhannu'r hashtag yma wrth ichi baratoi i
 weddïo'r Weddï Amser Paned:
 #Amen!GyfiawnderHinsawdd
 *Datguddiad 7:16

(Oddi ar daflen weddï ac o'r gwasanaeth ar gyfer yr wythnos)

Addoli

Mae'r gwasanaeth Cymorth Cristnogol eleni wedi ei ysbrydoli gan
 Gân y Proffwydi, hynny yw, llais diwinyddion byd-eang, pobl ifanc,
 partneriaid Cymorth Cristnogol a phroffwydi'r Beibl.

Mae eu cytgan yn galw ar i'r ddynoliaeth fod yn un â natur, yn
 hytrach na'i defnyddio'n rheibus a difeddwl. Maent yn galw am
 gyfiawnder i'r rhai sy wedi cyfrannu leiaf tuag at yr argyfwng
 hinsawdd ond sy'n dioddef waethaf. Ac, yn allweddol, maent yn
 galw arnom i ddychmygu sut fyd all hwn fod ac yn galw ar bob un
 ohonom i wneud y cyfan a allwn i adfer y greadigaeth a sicrhau
 ffyniant i bawb, er gogoniant Duw.

Mae'r holl adnoddau ar gael i'w harchebu neu eu lawrlwytho ar
 gyfer addoli yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol 2021: [https://
 www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-
 week/resources](https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week/resources)

Cefnogwyr Wythnos Cymorth Cristnogol

Arglwydd,
 diolch am ddycnwch cefnogwyr
 Wythnos Cymorth Cristnogol;
 am eu dyfeisgarwch
 yn wyneb her ein dydd;
 am eu ffyddlondeb diwyro
 i sicrhau cyfiawnder.
 Ysbrydola hwy
 yn eu holl drefniadau
 eleni.
 Amen.

Sylw o'r Seidin

Credaf – fod pob Gair o'i Air yn wir;
credaf, er imi amau hyn mor hir!

Fe gofiwch y geiriau uchod o gân adnabyddus Arfon Wyn a ganwyd gan y grŵp Pererin slawer dydd. Mae'r gân yn gyffes bersonol ac yn sail i sicrwydd ffydd a brofydd mewn man a lle arbennig.

Tybed pwy ydych chi'n credu ynddyn nhw erbyn hyn?

Ydy byw mewn cyfnod lle nad ydym yn sicr pwy allwn ni eu credu yn gwneud credu rhai pethau am ein ffydd yn rhwyddach neu'n fwy anodd? Pan ddywedodd Luke Skywalker: 'Nid wyf yn gallu credu hynny', ymateb Yoda oedd: 'Dyna paham yr wyt yn methu!'

Dywedodd Iesu Grist wrth ei gyfeillion, pan ofynnon nhw iddo un tro pam nad oedden nhw'n gallu gwneud gwyrthiau fel yntau: 'Am fod eich ffydd chi mor wan,' meddai. 'Yn wir rwy'n dweud wrthydd, os bydd gennych ffydd gymaint â hedyn mwstard, fe ddywedwch wrth y mynydd hwn, "Symud oddi yma draw", a symud a wna.'

Ydy hynny'n wir amdanom ni, Gristnogion Cymru? Ydy hi'n bosib credu bod pob peth yn wir yn hanes y Beibl ac ym mywyd a gweinidogaeth Iesu Grist?

Catherine Marshall ddywedodd: 'One can believe in the divinity of Jesus Christ, and feel no personal loyalty to Him at all – indeed, pay no attention whatever to His commandments and His will for one's life. One can believe intellectually



in the efficacy of prayer and never do any praying!'

Cefais fy nghyfeirio'n ddiweddar at *Surprised by Hope*, cyfrol gan y Parch Ddr N T Wright, cyn-egsob Durham. Cyfrol ydyw sy'n ymdrin â bywyd, marwolaeth, ysbrydolrwydd a goroesiad y ddynolryw yn y byd heddiw.

Ynghanol ansicrwydd mawr ynglŷn â phwy neu beth i'w gredu, rydym yn dal i obeithio am ddyddiau gwell i ddod. I amryw ohonom, y mae cwch ffydd wedi ei angori'n ddiogel, ac i eraill ohonom mae cwch ffydd wedi bod yn llusgo 'nol a blaen yn yr harbwr a'r angor yn llacio cyn ailafael drachefn.

Gwyddom am effaith gadarnhaol meddu ar ffydd, a thystiolaethu gyda chariad – ond y peth hwnnw sy'n rhoi rheswm inni wneud hyn yw ein gallu i obeithio am yfory gwell, a'n gallu trwy Grist i atgyfodi sefyllfaoedd sy'n edrych yn amhosib. Dywed N T Wright wrthym yn ei gyfrol: 'What do Christians hope for? To leave this wicked world and "go to heaven"? For the kingdom of God to grow gradually on this earth?'

Oni ddylai'r hyn a gredwn am fywyd wedi marwolaeth effeithio'n uniongyrchol ar yr hyn a gredwn am fywyd cyn marwolaeth? Hebdo – cawn ein dedfrydu i aros yn ein hunfan, i gredu'r gwaethaf am bopeth ac amau popeth am werth bywyd, a ffydd, a chredo, a dyfodol yr eglwys.

Mae angen dyfalbarhau heddiw, ac mae angen dyfalbarhad i gwblhau cyfrol gyfoethog Tom Wright! Mae'n gyfrol sy'n codi cwr y llen ar ehangder ein gobaith ac yn herio'r eglwys i ddwys ystyried ymarferoldeb ei chenhadaeth heddiw. Feiddiwn ni ddim ond cadw ein llygaid ar y dyddiau gwell all ddod mewn byd a bywyd newydd tu draw i'r llen.

Sut felly fyddwn ni fel Cristnogion yn edrych i'r dyfodol a'r heriau newydd sy'n wynebu'r eglwys wrth i ni geisio ailagor ein drysau, ac ailafael yn ein cenhadaeth yn lleol?

Gwilym Tilsley ganodd am ffydd, gobaith a chariad yn ei emyn mawr, a dyma a ddywed wrthym yn arbennig am obaith y ffydd: rhywbeth i erfyn amdano mewn gweddi daer ydyw, er mwyn gallu mentro ymlaen; trwy obeithio yng Ngair Duw y daw angylion eto i symud y meini a syrthiodd ar draws ein llwybrau yn y flwyddyn aeth heibio. Fel hyn mae'r ail bennill yn cloi:

O loches dy law cawn sylly'n ddi-fraw
a chanfod daioni ym mhopath a ddaw.

Ydw i'n credu? Ydw, rwy'n credu, diolch Iddo – ond nid popeth yn ddigwestiwn!

Jim Clarke
Porthaethwy

Annwyl Olygydd,

Annwyl olygyddion,

Mae nifer cynyddol o addoldai Cymru yn symud oddi ar berchnogaeth leol neu gyfundebol (yn achos y Presbyteriaid a'r Eglwys Fethodistaidd) i ddwylo preifat.

Gyda'r addoldai hyn wedi cael eu codi gan arian prin trigolion lleol (y mwyafrif ohonynt yn ystod y 19fed ganrif), oni ddylai enwadau, fel cam cyntaf cyn eu rhoi ar y farchnad, ymgynghori â'r cymunedau y buont yn eu gwasanaethu, i wybod a oes diddordeb lleol mewn prydlesu'r addoldai ganddynt i'w haddasu at ddefnydd cymunedol amlbwrpas?

A hithau'n ddechrau tymor y cynadleddau enwadol (boed rithiol neu wyneb yn wyneb), onid yw'n amserol i arweinyddion enwadol baratoi i roi cynnig gerbron fod polisi o'r fath yn cael ei fabwysiadu?

Yn gywir,
Eifion Wynne

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â theulu'r diweddar Barchedig Cynwil Williams yn dilyn clywed am ei farwolaeth ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Ar yr un pryd, cofiwn am ei deulu yn Eglwys y Crwys, yr eglwys y bu'n eu bugeilio a'r llu o gyd-Gristnogion sydd yn teimlo'r golled heddiw. Bu'n ŵr a thad annwyl, ac yn ffrind i lawer.

Bu Cynwil, fel un a fagwyd yng nghylch crud Methodistiaeth, yn aelod ac yn arweinydd amlwg o fewn y Cyfundeb ar hyd y blynyddoedd. Fel gweinidog a bugail gofalus, enillodd ei le yng nghalon y bobl a ymddiriedwyd iddo. Fel pregethwr, amlygai ei ddawn a'i allu academaidd a'i ddiddordeb mewn darllen.

Yr oedd hefyd yn awdur, a'i gyfrol fywgraffyddol am Rowan Williams yn sefyll allan. Fel hanesydd, roedd ei ddiddordeb yn ein gwreiddiau yn annwyl, a bu'n arbenig o ofalus a ffyddlon yn ei ymwneud â Choleg Trefeca. Yr ydym hefyd wedi colli un a lanwodd yn llawn gadair ein Cymdeithasfa a'n Cymanfa fel Llywydd.

Boed heddwch i'w lwch a thangnefedd Duw'r tangnefedd i'r rhai sy'n galaru, ond nid fel rhai heb obaith.

Meirion Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol EBC

'Y Pabydd Protestannaidd' – cofiö Hans Küng (1928–2021) (parhad)

Y tro diwethaf cawsom ein tywys gan Glyn Tudwal Jones, Caerdydd, i ddechrau gwerthfawrogi cyfraniad y diwinydd Hans Küng. Yma mae'n canolbwyntio ar gyfrol enwocaf Küng, sef *On Being a Christian*.



Yn ddi-os, ei gyfrol fwyaf dylanwadol oedd *On Being a Christian*. Hon a enillodd glod i'w hawdur ymhell y tu hwnt i ffiniau'r Eglwys Babyddol. Mae'n cyffwrdd â phob rhan o fydd a bywyd y Cristion, a hynny ar gefndir y byd y mae'n ceisio byw a thystio ynddo. Bu'n hynod boblogaidd. Cyhoeddwyd hi mewn clawr meddal yn fuan wedi iddi ymddangos yn Saesneg, ac fe'i gwelid ar werth mewn siopau newyddiaduron ac ar stondinau mewn gorsafoedd rheilffordd. Roedd gan Küng y ddawn i lefaru'n glir ac yn berthnasol, gan dorri drwy ganrifoedd o ddogmâu, a phwysleisio gogoniant a pherthnasedd oesol Crist ei hun.

Yn adran gyntaf y llyfr, mae ei ddiffiniad o oes dechnolegol, seciwlar yn dal yn werth ei ddarllen o hyd. Credai fod gwyddoniaeth a thechnoleg wedi rhyddhau dyn oddi wrth lawer o'i hualau, ond yr un pryd wedi creu caethiwed newydd. Dyna ben draw Marcisiaeth hefyd, meddai. Ond nid oedd yn besimistaidd ynghylch lle crefydd mewn bywyd: 'It is the legal constraints of the technocratic society itself ... which threaten to crush man's personal dignity, freedom and responsibility ... The really other dimension cannot be found on the plane of the linear, the finite, the purely human.'

Yn yr ail adran, fe'n harweiniodd i ystyried y gwahanol ddarluniau a gawn o Grist yn y Beibl, yn addoliad yr eglwys dros y canrifoedd, mewn dogma, ac mewn llenyddiaeth. Ac yn y drydedd adran, fe bwysleisiodd le'r eglwys ym mywyd y Cristion a bywyd y byd. Er mor finio oedd sylwadau Küng ar yr eglwys y perthynai iddi, er gwaethaf y driniaeth a dderbyniodd drwy ei llaw, ac er gwaethaf ei holl ffaeiddau, roedd yn caru'r eglwys yn angerddol, ac yn caru ei Phen. Ar y diwedd, cyflwynodd y gyfrol i bob un sy'n chwilio, neu sy'n ansicr ei fydd.



Technoleg – rhyddid
neu caethiwed?

Crist ei hun oedd sail a sylfaen ffydd Küng: nid unrhyw ddogmâu amdano, ond y Crist a fyddai ei hun yn herio awdurdodau crefyddol ei ddydd. Ef yw ein patrwm: 'Jesus himself in person is the programme of Christianity ... The distinguishing feature of Christianity is Christ himself ... He is himself the wholly concrete truth of Christianity ... For faith, the true man Jesus of Nazareth is the true revelation of the only true God.'

Roedd yna rywbeth iach a ffres yn y modd y byddai Küng yn condemnio'r duedd sydd yn yr eglwys (pob eglwys!)

i anrhydeddu'r hyn sy'n hen *am ei fod* yn hen: hen arweinwyr, hen draddodiadau, hen gredoau. Dim ond y Crist byw oedd yn cyfrif yn ei olwg, y Crist atgyfodedig, ac am hwnnw y siaradai ac yr ysgrifennai heb flewyn ar dafod. Roedd yn ddiwygiwr digymrodedd ac yn eciwmenydd brwd, a hynny yng ngwir ystyr y gair, sef 'byd-eang'; dywedodd yn 2009 na fyddai heddych rhwng cenedloedd y byd nes y ceid heddych rhwng crefyddau'r byd.

Ond yn bennaf oll cofiwn amdano fel cyfathrebwr dawnus, un y mae ei weithiau'n para i'n hysbrydoli.

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

ATHRODIA PADARN SANT ST PADARN'S INSTITUTE

GOFAL EIN GWINLLAN

Cyfres o weminarau am gyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'r Gymraeg, ei llên a'i diwylliant.

Rhan 3: Dydd Sadwrn 8 Mai, 10.00 - 11.30am

Pynciau'r sesiwn

Ellis Wynne o'r Lasynys a Chwrs y Byd
Dr A. Cynfael Lake,
Cyn-Ddarllenydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe;

Iachawdwriaeth, Rhagluniaeth a Hanes:
Theophilus Evans a Drych y Prif Oesoedd
Yr Athro Huw Pryce,
Athro Emeritws Hanes Cymru, Prifysgol Bangor.

Gallwch gofrestru ar gyfer y weminar yma:
<https://bit.ly/3fstN2H>

Cynhelir y sesiynau yn Gymraeg, gyda chyfieithu ar-y-pryd ar gael hefyd.

Cylchgrawn Hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru (Rhif 44, 2020)


Mae'r *Cylchgrawn Hanes* wedi ymddangos unwaith eto. Ysywaeth, bu farw'r golygydd, yr Athro John Gwynfor Jones, Caerdydd, cyn i'r cylchgrawn fynd i'r wasg a cheir gair o goffâd iddo yn y cyflwyniad.

Mae'r pum ysgrif sydd yn y cylchgrawn yn rhai swmpus a sylweddol. Yn y gyntaf mae'r Athro Ceri Davies yn ystyried bywyd a gyrfa John Davies, Mallwyd, a'i gyfraniad i gyfieithiad 1620 o'r Beibl i'r Gymraeg. Rhydd sylw hefyd i ddarlun y diweddar Gwynn ap Gwilym ohono yn ei nofel *Sgythia*, gan ofidio na chafodd yr awdur fyw i weld y derbyniad a gafodd.

Ysgrif Saesneg a geir gan yr Athro E Wyn James, yn olrhain hanes Lewis Evan a Richard Tibbott, un o arloeswyr Methodistiaeth yn Sir Drefaldwyn. Cyflwyno Theophilus Jones, Blaen-plwyf, a wna Dr Eryn M White. Dyma ŵr a ddisgrifiwyd gan William Williams, Pantycelyn, fel 'cyfaill Duw' ac a oedd yn cynrychioli haen gymdeithasol o ffermwyr llewyrchus a mân-fonedd fu'n allweddol i ddatblygiad Methodistiaeth yn y ddeunawfed ganrif.

Mae'r ddwy ysgrif arall, 'Gwreiddiau Radicaliaeth' gan y Parch Rhys ab Ogwen Jones, a 'Lleddfu dynol loes' gan y Parch Dafydd Andrew Jones, yn ymwneud â chyfnodau diweddarach yn hanes y Cyfundeb. Pwysleisia Rhys ab Ogwen Jones ar ddiwedd ei ysgrif fod ein traddodiad radical yn mynnu ein bod yn wynebu rhai cwestiynau penodol heddiw, megis tlodi a chaniatáu i ddau o'r un rhyw briodi yn ein capeli. Ac wrth olrhain cysylltiadau allanol y Cyfundeb a'u dylanwad ar yr enwad rhwng y ddau Ryfel Byd pwysleisia Dafydd Andrew Jones yntau mai cydweithio er mwyn ymateb i heriau'r cyfnod oedd y nod.

Yn ogystal â'r ysgrifau ceir hefyd dri adolygiad: o gyfrol D Ben Rees, *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl; Cerdded y Palmant Golau*, Harri Parri a *Theologia Cambrensis*, Cyfrol 1, gan D Densil Morgan.



Gellwch ymaelodi â'r Gymdeithas Hanes (£8 y flwyddyn) a chael copi o'r cylchgrawn drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd Ariannol (elwyn.richards@ebcpcw.cymru).

Annwyl Olygydd,

Annwyl Olygydd,

Siom oedd darllen yn Rhifyn 7 am hanes Bethania, Pistyll. Yn wir, siom o'r mwyaf yw clywed a darllen am gau a datgorffori eglwysi. Yn anffodus, dyna ein hanes ... dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn hen Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg yr oedd rhyw 90 o gapeli gennym fel enwad ar ddechrau pumdegau'r ganrif ddiwethaf. Heddiw, nid oes ond chwe eglwys gyda thri chapel a'r tair cynulleidfa arall yn rhannu adeilad.

O ddarllen yr hanes am gapel Pistyll, daeth i'm cof y penwythnos pan euthum yno ar un o fy ymweliadau prin i bregethu yn y gogledd pan oeddwn yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth.

Y Sadwrn cyn y cyhoeddiad euthum yng nghwmni fy nghydyfrywiwr a'm ffrind coleg Elwyn Hughes, Canada, sydd erbyn hyn yn 90 oed. Aethom gyda thrên y Sadwrn hwnnw i Bwllheli ac yna ymlaen i Efailnewydd i gartref Elwyn, a chyfarfod ei rieni am y tro cyntaf a chael croeso cynnes dros ben.

Y nos Sadwrn euthum i Pistyll ar gyfer drannoeth, a lletya dros nos gyda Mr a Mrs Harris Hughes. Wedi bod yn pregethu ym Methania yn y bore, fe'm cludwyd i Lithfaen am weddill y Sul.

Ond nid dyna'r tro olaf i mi fynd i gapel Lithfaen. Yn 1960 yr oedd y Parch Hartwell Lloyd Morgan, fy nghymydog pan oeddwn

yn weinidog yng Ngofalaeth Pumsaint ac yntau'n weinidog ar eglwysi Llansawel, Esgair-nant a Rhydcymerau, yn cael ei sefydlu fel Gweinidog Eglwysi Pistyll a Llithfaen. Yr oeddwn i'w gyflwyno ar ran Eglwysi Dosbarth Llansawel. Roedd Hartwell yn briod ag Eirian, merch y Parch Dafydd Jones, Blaen-plwyf. Yr oedd chwaer arall, un o efeilliaid, yn briod â'r diweddar Barch J. Edward Williams, cyd-fyfyriwr arall i mi.

Gresyn fod nifer yr eglwysi wedi cau ers fy ordeinio yn 1956. Dichon y caf ymhelaethu rywbryd eto. Ynghanol y sefyllfa a'n hamgylchodd y misoedd diwethaf, a'r gofid, y tywyllwch a'r anobaith a daflodd y pandemig ar fyd cyfan, rhaid i ni barhau, cyn lleied ag yr ydym, i gyhoeddi neges achubol yr Efyngyl gyda sêl newydd: 'Cans tystion ym ni, mai gobaith yr oesoedd yw Croes Calfarî' a bod yr Iesu Atgyfodedig yn fyw ac yn gallu 'troi tywyll nos yn olau dydd'.

Hyderaf fod yr atgof uchod o ryw ddi-ddordeb i ddarlennwyr *Cenn@d*. Pob llwyddiant i'r papur newydd yma. Gan ddiolch am y blynyddoedd o fendith a gawsom o dderbyn a darllen ei ragflaenydd, *Y Goleuad*.

D. Haydn Thomas
Caerdydd

ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

ACTAU'R APOSTOLION

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd

Yr Eglwys Fore

44 Ioan Marc

Gweddi

Arglwydd Iesu, cyfaill plant, gofynnwn am d'arweiniad yn ein myfyrdod gan sylweddoli bod pawb yn dylanwadu ar yr ifanc, ein teuluoedd a'n cymdogaethau. Maddau i ni am bob dylanwad negyddol y gallwn ei adael arnynt a meithrin ynom yr ymwybyddiaeth i fod yn ddylanwadau er daioni. Amen.

Darllen

Actau 12:1-19 – bwrlwm a braw magwraeth yn yr Eglwys Fore

Cyflwyniad

Yn yr uned ddiwethaf, nodwyd bod Barnabas, cynorthwydd Paul ar y daith genhadol gyntaf, y proffwyd a'r athro, yn ewythr i Marc (Colosiaid 4:10 BWM). Ceir cyfeiriad at ŵr ifanc yn ffoi yng ngardd Gethsemane (Marc 14:51-2) a thybir mai Marc ei hun oedd hwnnw, ac ef wrth gwrs a ysgrifennodd yr efengyl sy'n dwyn ei enw. Pwysodd yn drwm ar Pedr, yn ôl y gwybodusion, ac mae'r tair elfen hon yn cyfleu ei fod yn agos at arweinyddiaeth yr Eglwys Fore ac yn dyst pwysig o fywyd Iesu, ei farw a'i atgyfodiad. Byddai'r disgyblion/apostolion yn cyfarfod yng nghartref ei fam, ac yntau wedi medru gwrando ar sgwrsio'r arweinwyr hyn yn hawdd.

Mae Efengyl Marc yn bwysig hefyd. Hon yw'r hynaf o'r pedair efengyl sydd yn y Testament Newydd. Credir ei bod dyddio o 65 OC a'r farn gyffredinol yw i Marc ysgrifennu'r efengyl yn Rhufain. Nid yw'n cyfeirio at y Ddeddf Iddewig, ac felly tybir iddo'i llunio ar gyfer pobl o gefndir cenedl-ddynion, gan ei fod yn cynnig eglurhad ar eiriau fel 'Boanerges' (3:17), 'Talitha cwmi' (5:41), 'Abba' (14:36). Ceir ambell air Lladin yn y testun, ac nid oes defnydd o'r rhestr

achau fel sydd gan Mathew a Luc. Mae'n ysgrifennu'n onest, yn glir a diaddurn, heb unrhyw saerniaeth amlwg, fel pe bai wedi creu darluniau o ddigwyddiadau mewn dyddiadur a'u trosglwyddo i'w efengyl mewn iaith sy'n ymylu ar fod yn llafar. Erbyn dechrau Actau 12, roedd Iago, brawd Iesu, wedi marw, a Pedr, yr huotlaf o'r apostolion, wedi ei garcharu, a'i gyfeillion yn ofni na fyddent yn ei weld yn fyw eto. Rhyfeddod y cyffro oedd fod Rhoda, y forwyn yn nhŷ Mair, mam Ioan Marc, wedi cael braw pan ddaeth Pedr i'r drws, ac yn hytrach na'i adael i mewn, rhuthrodd at ei meistres ac eraill i ddweud pwy oedd yno. *Beth oedd yr argraff ar berson ifanc fel Ioan Marc o brofi braw a chyffro o'r fath, tybed?*

Myfyrdod

Mewn llythyr at Timotheus, dywed Paul wrtho am gofio ffydd ei fam a'i fam-gu (2 Timotheus 1:5-6). Mae hanes Marc yn gymharol debyg, sef bod ei fam wedi caniatáu i'r Iesu a'i ffrindiau gyfarfod ar ei haelwyd a bod ewythr i Marc wedi bod yn amlwg yn arweinyddiaeth yr Eglwys Fore. Tybed faint o aelodau'r eglwys sydd wedi etifeddu'r ffydd am iddynt gael eu magu yn awyrgylch cred a defosiwn? Mae'n ddifyr nodi dylanwad y rhieni ar y plant, boed i fynyachu'r eglwys neu ymgadw rhag gwneud hynny. Faint o'n teuluoedd personol sydd wedi cerdded y llwybr, a faint gadwodd rhag gwneud hynny am iddynt sylwi ar nodweddion gwannaf eglwys, heb ddeall nad yw'r aelodau'n hawlio'u bod yn berffaith ym mhob modd?

Dywed yr Eglwys Gatholig ei bod am addysgu'r plentyn yn ifanc fel y bydd yn sicrach o ymrwymiad y plentyn pan fydd yn oedolyn. Falle nad yw hynny mor wir bellach, ond mae'n deg dweud bod dylanwad y Cristion yn helaeth a bod ein ffordd o ymddwyn yn adlewyrchu ein hargyhoeddiad. Mae'n gwbl bosibl

i riant ddysgu plentyn i nofio gyda chyfarwyddiadau o ymyl y pwll, ond bydd yn fwy effeithiol os bydd yn y dŵr gyda'r plentyn.

Pan fydd plant i deuluoedd Cristnogol yn gweld erledigaeth mewn gwledydd yn y Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell nawr, beth fydd yr argraff sy'n cael ei gadael arnynt: ai cilio i'r cefndir neu awydd i gamu ymlaen mewn ffydd? Ceir enghreifftiau o'r ddau ymateb, nid yn unig ym myd ffydd ond ym mhob maes. Ffenomen ddifyr yw gweld plant yn dod yn Gristnogion ac yn arwain eu rhieni at Grist. Diolchwn am ddylanwad oedolion o ffydd ar ein bywydau ni, a byddwn yn ymwybodol o'n dylanwad ni ar ein plant a'u cyfoedion.

Gweddi

Arglwydd y dylanwadau tragwyddol, meithrin ynom yr awydd i fod yn dywyswyr cywirach i'n hieuenctid a'u gwarchod rhag yr elfennau haerllug a negyddol. Boed iddynt dy weld di yn ein bywydau ni. Amen.

Trafod ac ymateb

- Trafodwch y cwestiwn ** ym mrawddeg olaf y cyflwyniad yng ngoleuni darlleniad yr wythnos hon.
- Cofiwch am anogaeth Paul i'r Timotheus ifanc i gofio ffydd ei fam a'i fam-gu. Sut y gallwn ni gefnogi teuluoedd ein heglwys yn ymarferol wrth iddyn nhw geisio magu eu plant yn y ffydd?
- Yn yr un llythyr mae sôn am Marc (2 Timotheus 4:11) a thysteb Paul iddo, a'i alwad amdano er iddo'i siomi ar y daith genhadol gyntaf (Actau 13:13). Roedd Barnabas ei ewythr yn fodlon rhoi ail gynnig iddo yn syth, a Paul yn nes ymlaen yma. Pwy sydd gennym ni yn bobl ifanc, cysylltiedig efo'n heglwys, y gallem roi ail gynnig iddynt a'u cynnwys yn ein gwaith a'n cenadaeth?

S4C

Nos Sul, 9 Mai, am 7.30yh – Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Ar drothwy wythnos Cymorth Cristnogol, fe gawn glywed am ddatiliadau'r elusen wrth iddi ddatlu ei phen-blwydd yn 75 oed. Nia fydd yn Aberhonddu yn edrych nôl ar waith yr elusen hefo cyn-bennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Jeff Williams, a chawn edrych ymlaen at ddyfodol yr elusen yng nghwmni un o'u gweithwyr newydd, Nathan Munday.

BBC radio cymru

Sul, 9 Mai, Caniadaeth y Cysegr

am 7.30yb a 4.30yp
Rhaglen arbennig yn dathlu pen-blwydd yr arweinydd John S Davies yn 80 oed. Rhian Williams sy'n cyflwyno.

Gwasanaeth Radio Cymru am 12:00yp

Rhai o weithwyr Cymorth Cristnogol yng Nghymru sy'n arwain gwasanaeth arbennig ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol.

Cofio'r Parch J John Roberts (1925–2021)

Ganol mis Ebrill bu farw'r Parch John Roberts, Abergwaun, yn 95 oed. Derbyniodd ei addysg yn lleol cyn dechrau gweithio yng nghanolfan Trecŵn, ac yntau'n ddim ond 14 oed, gan seiclo chwe milltir bob ffordd yn ddyddiol. Gwirfoddolodd i ymuno â'r llynges pan oedd yn 17 oed a derbyn hyfforddiant i fod yn ddydd signalau. Gweithiai ar longau oedd yn croesi'r cefnforoedd gan gludo nwyddau hanfodol, ac yn ddiweddarach bu'n gweithio ar long cludo awyrennau.

Ar ôl diwedd y rhyfel, cafodd gyfle i gofrestru yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, gan fwynhau'r profiad, nid yn unig yng nghydestun gyrfa, ond am iddo gyfarfod Olwen Miles, nyrs o'r Rhondda Fach, a ddaeth yn gymar oes iddo. Roedd ei swydd gyntaf fel athro yn Birmingham, lle ganwyd Martin, eu mab hynaf, cyn derbyn swydd prifathro ysgol gynradd yng Ngroes-goch, ac yno y ganwyd Huw, yr ail blentyn. Roedd y teulu'n byw yn Abergwaun, ac yntau'n athro ysgol Sul ac yn ddiagon yn Eglwys Hermon. Derbyniodd brifathrawiaeth Ysgol Gynradd Brynconin yn 1960, lle bu'n boblogaidd gyda'i staff a'r disgyblion, a symud i fyw yn Llandysilio. Roedd yn



John Roberts gyda Denzil John yn Undeb Abergwaun yn 2014

gaffaeliad i'r gymuned mewn sawl ffordd, ac yn arbennig fel cantor cadarn yn y côr cymysg lleol.

Bu'n bregethwr llewyg ar hyd y blynyddoedd hyn, ac yn dderbyniol gan eglwysi o bob enwad yn Nyfed. Yn 1977, ac yntau'n 52 oed, penderfynodd ymddeol o fyd addysg a'i gynnig ei hun i fod yn weinidog llawn amser. Roedd gyda'r haen gyntaf i gofrestru fel myfyriwr mewn gofalaeth,

arfer cyffredin bellach yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd. Eglwys Ruamah, Pen-y-bont, oedd yr eglwys a gafodd ei gwmi ac yntau'n treulio diwrnod yr wythnos yng Nghaerdydd, yn ogystal â gwneud asesiadau gartref. Enillodd barch a phrofi cariad pobl Pen-y-bont ar hyd y 13 blynedd y bu yno, ac roedd y dref a'r fro yn annwyl a phwysig iddo ef a'i briod.

Pan ymddeolodd yn 1990 dychwelodd i Abergwaun, ac yn 1996 derbyniodd wahoddiad gan Eglwys Harmoni, Pen-caer, nid nepell o Abergwaun, a gwasanaethu yno rhwng 1996 a 2014. Roedd bellach yn 89 mlwydd oed, ac er iddo ymddeol am y drydedd waith yn ei fywyd, bu'n pregethu am ychydig flynyddoedd eto. Lluniodd ambell emyn a byddai'n mwynhau amrywiaeth eang o lenyddiaeth.

Dyn pobl oedd John, un a gefnogai eraill, ac roedd yn ei elfen yn pregethu. Roedd y genhadaeth yn bwysig iddo a bydd lliaws o gyn-ddisgyblion ac aelodau eglwysig yn cofio amdano gyda pharch a chariad sylweddol. Cynhaliwyd ei angladd yn Hermon, Abergwaun, dan arweiniad ei weinidog, y Parch Geraint Morse. Hedd i'w lwch wrth i ni ddiolch amdano a'r gras a ddatguddiwyd yn ei fywyd.

*Denzil John
Caerffili*

Cwpan Mab y Dyn



Beth tybed allwn ni ei ddysgu am Iesu wrth ddarllen drwy'r hyn y mae Mathew wedi'i ysgrifennu amdano?

Cawn hanes cynnar Iesu, ei enedigaeth wyrthiol a'i gyfnod fel ffoadur yn yr Aifft cyn i'r teulu wneud eu cartref yn Nasareth. Wedyn, ceir hanes Ioan Fedyddiwr, yn paratoi'r ffordd ar ei gyfer.

Pan ddechreuodd Iesu bregethu, roedd yn pwysleisio'r angen am ymateb edifeiriol gan y rhai oedd yn credu ynddo (Mathew 4:17), er enghraifft: 'Dechreuodd geryddu'r trefi lle y gwnaed y rhan fwyaf o'i wyrthiau, am nad oeddent wedi edifarhau.' (Mathew 11:20)

Cawn ein hatgoffa o'r pwyslais hwn bob tro byddwn yn derbyn y bara a'r gwin mewn oedfa gymun:

'Cymerwch, bwyteu; hwn yw fy nghorff.' A chymerodd gwpan, ac wedi diolch fe'i rhoddodd iddynt gan ddweud, 'Yfwch ohono, bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, a dywelltir dros lawer er maddeuau pechodau.' (Mathew 26:26–8)

Mae'r geiriau a ddefnyddir gan offeiriad wrth gynnig y bara a'r gwin yn werth sylwi arnynt. Rwy'n dyfynnu o Lyfr Gwedi Gyffredin yr Eglwys yng Nghymru:

Corff ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a roddwyd drosot ti, a gadwo dy gorff a'th enaid i fywyd tragwyddol. Cymer a bwyta hwn, er cof farw o Grist drosot ti, ac ymborth arno yn dy galon trwy ffydd, gan roddi diolch.

Gwaed ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a dywalltwyd drosot ti, a gadwo dy gorff a'th enaid i fywyd tragwyddol. Yf hwn, er cof dywallt gwaed Crist drosot ti, a bydd ddiolchgar.

Mae pawb sy'n gwrandao ar raglen *Ar eich cais* ar nos Sul wedi clywed canu'r geiriau 'Mi glywaf dyner lais' ar yr emyn-dôn 'Gwahoddiad' nifer o weithiau. Byrdwn yr emyn yw diolch pechadur am fuddugoliaeth Calfaria (*Caneuon Ffydd*, 483).

Un o garolau mwyaf poblogaidd y Cymry yw'r emyn sy'n dechrau â'r geiriau:

Wele, cawsom y Meseia,
cyfaill gwerthfawroca' 'rïoed

ac yn gorffen â'r geiriau:

'frodyr, dewch, llawenhewch,
diolchwch iddo, byth na thewch!'
(*Caneuon Ffydd*, 441)

A diolch am fuddugoliaeth Calfaria yw byrdwn yr emyn hwn hefyd:

Rho imi, nefol Dad,
yr Ysbryd Glân yn awr
wrth geisio cofio'r gwerth a gaed
yng ngwaed ein Iesu mawr.

Gad imi weld y wawr
a dorrai ar ei loes
a'r heddwch a gofleidiai'r byd
yn angau drud y groes.

Ei gwpan ef, mor llawn
a chwerw ar ei fin,
a droes, yn rhin ei gariad mawr,
i mi yn awr yn win.
(*Caneuon Ffydd*, 629)

*Tom Williams
Dinbych*

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Gorchfygu'r byd

Gweddi

Arglwydd, Dad tragwyddol fy enaid, gad i'm meddwl cyntaf y dydd hwn fod amdanat ti, a gad i'm cymhelliad cyntaf fod i'th addoli di. Bydded i'm geiriau cyntaf lefaru dy enw, a gad i'm gweithred gyntaf fod yn plygu o'th flaen mewn gweddi. Dyma fy nyhead, yn Iesu Grist dy Fab, Amen.

(Gweddi wedi'i haddasu o *A diary of private prayer*, John Baillie, 1936)

Emyn 385: 'Goleuni'r byd yw Crist'

Cyflwyniad 1

Gwelsom yn ystod yr wythnosau diwethaf fod loan am ein galluogi i adnabod natur profiad Cristnogol a hanfod profes ddilys o ffydd.

Mae profiad Cristnogol ddilys yn cael ei nodweddu, meddai loan, gan gariad at Dduw drwy Iesu Grist. Yn ail, mae caru Duw yn arwain at garu ei blant, yr eglwys, y rhai sydd wedi eu geni i fywyd newydd. Yn drydydd, mae cariad at sancteiddrwydd, y dyhead i gadw gorchmynion Duw, yn dangos ein bod (er mor amherffaith) wedi cefnu ar wrthryfel ein calonnau er mwyn i ni ei garu a'i wasanaethu.

Gadewch i ni **ddarllen 1 loan 5:1-5** am y tro cyntaf gan chwilio am y pwyslais yma.

Cyflwyniad 2

Y mae i broffes ddilys fwy na meistrolaeth o ddiffiniadau'r ffydd. Mae'n gofyn am fwy na chred gywir yn unig. Nid digon chwaith yw hunanddisgyblaeth lem, na phrofiadau ysbrydol cynhyrfus, na glynu wrth allanolion crefydd. Diystyr yw pob un mynegiant o ffydd heb gariad.

Adroddir un traddodiad hynafol y gellir ei olrhain i Jerôm (c. 342-347-30 Medi 420), a gyfieithodd y Beibl i'r iaith Ladin. Y cyfieithiad hwn, sef y Fwlgat, oedd yn cael ei ddefnyddio gan Eglwys y Gorllewin am dros fil o flynyddoedd.

Yn ôl y traddodiad, byddai'r Apostol loan, ac yntau'n analluog i gerdded i gyfarfod yr eglwys, yn cael ei gludo gan aelodau o'r gynulleidfa. Yn y gwasanaeth, ei arferiad oedd dweud y geiriau hyn yn unig: 'Fy mhlant bychain, carwch eich gilydd.'

Wedi peth amser, a'r gynulleidfa'n dechrau blino ar glywed yr un geiriau, gofynnwyd i'r henwr pam roedd yn mynnu ailadrodd y geiriau? Roedd ei ateb yn syml ac yn

bellgyrhaeddol. 'Gorchymyn yr Arglwydd ydyw,' meddai. 'Ac os gwneir hynny yn unig, bydd yn ddigon.'

Gadewch i ni ddarllen 1 loan 5:1-5 unwaith eto, a sylwi y tro hwn faint o weithiau mae loan yn sôn am gariad. Beth tybed yw'r gwahanol linyddau o gariad?

Cyflwyniad 3

Gadewch i ni nodi un pwyslais arall sydd gan loan, sef ei bwyslais ar 'orchfygu'r byd'.

Gallwn ddychmygu darllenwyr cyntaf loan mewn penbleth wrth iddynt fyfyrion ar yr adnodau yma. O'u cwmpas roedd delwau niferus gwahanol dduwiau'r hen fyd, a chred mewn ysbrydion a phwerau ocwlt yn fygythiad i fywyd beunyddiol. A goruwch pob cwlt arall yr oedd cwlt yr Ymerawdwr yn mynnu ufudd-dod absoliwt. Roedd ei lun a'i arysgrif ar eu harian, cerfluniau ohono i'w weld, temlau iddo ac allorau i offrymu iddo. Dibynnai holl weinyddiad y llywodraeth ar ddyrchafu'r Ymerawdwr – hwn oedd y glud oedd yn cadw gwahanol rannau'r ymerodraeth at ei gilydd. Dibynnai ar greulondeb, ar drais, ar oruchafiaeth y faner SPQR, am ei lwyddiant, ei barhad a'i ffyniant.

Sut allai loan sôn am 'oruchafiaeth' pan oedd pob gallu ac awdurdod yn ymddangos fel pe bai yn eu herbyn?

1. Dibynna ein goruchafiaeth ni yn y lle cyntaf ar **y gorchfygwyr**. Mae'n amlwg fod geiriau Iesu yng nghof loan wrth iddo gyfarch ei ddarllenwyr. Yn Efengyl loan roedd Iesu wedi cyfeirio at ei groeshoeliad fel 'awr barnu'r byd: yn awr y mae tywysog y byd hwn i gael ei fwrw allan' (loan 12:31). Yna, yn yr oruwchystafell, mynnodd Iesu, er bod 'tywysog y byd hwn' ar waith yn ei groeshoeliad, 'nid oes ganddo ddim gafael arnaf fi' (loan 14:31). Yn wir, dywedodd wrth ei ddisgyblion, er y caent eu herlid a'u gwrthwynebu ac y deuai gorthrymder i'w rhan, 'codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd' (loan 16:33).

Ar y groes datgelwyd goruchafiaeth sancteiddrwydd Crist drwy ei ddioddefaint. Buddugoliaeth drwy ufudd-dod ydoedd. Concwest drwy gariad ydyw. Roedd yr hwn oedd yn cael ei gondemnio'n fwy na chreulondeb

'yr hwn oedd yn y byd'. Rhannu yn ei goncwest, drwy ffydd, a wnawn ninnau.

2. **Beth a orchfygir?** Cyfeiria loan at oruchafiaeth dros y 'byd' (adn 4, 5). Weithiau cyfeiria'r 'byd' at y ddaear: y byd, y gramen o ddaear yr ydym oll yn byw arni. Dro arall, disgrifia'r 'byd' fel maes gweithgarwch achubol Duw ('Do, carodd Duw y byd gymaint ...'). Ond yn fynych defnyddir 'y byd' fel ffordd lawfer o gyfeirio at ffordd ddaearol o feddwl, ffordd sydd yn ei hanfod yn elyniaethus i Dduw. Nid gallu annelwig â gwerthoedd niwtral ydyw. Golyga'r 'byd', yn y cyddestun hwn, y meddylfryd a'r grym drwg sydd ar waith, ac sy'n wrthwynebus i'r Crëwr a'i hawl i fod yn Arglwydd da yn ei fyd. Dyma'r elyniaeth a orchfygwyd gan Iesu. Dyma'r gallu pwerus y cawn ni ei orchfygu drwy Iesu.

3. **Y gorchfygwyr** Dywed loan wrthym fod 'pawb sydd wedi eu geni o Dduw yn gorchfygu'r byd' (1 loan 5:4). Nid ar sail hil, nallinach, neu allu ynddynt eu hunain y gorchfygir 'y byd'. Goruchafiaeth ydyw sy'n agored i 'bawb'. Yn wir, yn adn 1 eglura loan fod 'pob un' yn medru perthyn i'r gorchfygwyr! Ddwywaith, dywedir wrth ei ddarllenwyr mai'r gorchfygwyr yw'r rhai sydd 'wedi ei geni o Dduw' (adn 1, 3). Gwaith Duw ynom a barodd ein genedigaeth newydd. Arwydd o'r enedigaeth a wnaed ynom *unwaith* yw ein bod yn dal ati i 'gredur' *heddiw*. Nid dyfaliad na theimlad yw sail hyn ond argyhoeddiad, genedigaeth newydd drwy weithgarwch Duw ynom.

Rydym yn credu rhywbeth penodol: 'mai Iesu yw y Crist'. Ef yw'r eneiog, y Meseia. Disgwyliad yr ysgrythurau Iddewig oedd y deuai'r Meseia, y Crist, i sefydlu ei deyrnas, i farnu drygioni, i adeiladu ei deyrnas gyfiawn yn y byd. Mae 'credu' yng Nghrist fel y brenin hwnnw yn ein gosod ar unwaith ar lwybr gwrthdrawiad â'r 'byd'. Trwy'r enedigaeth hon daethom i garu Duw, i garu ei bobl, i garu sancteiddrwydd a glendid moes.

Darllen: 1 loan 5: 1-5

Myfyrdod tawel a gweddi

Emyn 718: 'Os gwelir fi, bechadur'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)